Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

## Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd

# Modiwl 3: Safleoedd a Mynediad

Ystyried Goblygiadau'r Hinsawdd ar gyfer Adeiladau, Safleoedd, Lleoliadau a Rhwydweithiau Trafnidiaeth

# Tabl Cynnwys


Cynnwys 2

Byrfoddau 3

Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd 4

- Sut i ddefnyddio'r modiwlau hyfforddiant 5
- Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi, a'r canllawiau cam wrth gam 6

Safleoedd a Mynediad 7

- Risgiau hinsawdd ar gyfer safleoedd a llwybrau mynediad 7
- Cynnal teithiau cerdded ymwybodol o'r hinsawdd o gwmpas y safle 8

Ffocws ar: Lifogydd 9

- Mathau o berygl llifogydd 9
- Perygl llifogydd – cwestiynau i'w gofyn i chi'ch hun am eich safle 10
- Asesu'r perygl o lifogydd yn eich lleoliad chi yn y dyfodol 12
- Cynllunio ar gyfer llifogydd 13
- Paratoi cynllun llifogydd a chymryd camau ataliol 16
- Mynd i'r afael â pheryglon llifogydd 16
- Paratoi pecyn llifogydd 17
- Sbarduno cynlluniau llifogydd eich busnes 18

Effeithiau Hinsawdd Eraill 19

Pwysigrwydd eich Llwybrau Mynediad 20

- Opsiynau ar gyfer mapio eich llwybrau mynediad 20

Cofrestrau Asedau Sefydlog 23

- Creu cofrestr asedau sefydlog – a pham y mae'n bwysig 23
- Ar ba ffurf y dylai fy nghofrestr asedau fod? 24
- Creu eich cofrestr asedau 25
- Blaenoriaethu eich asedau 26

Yn Dod Nesaf: Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd Modiwl 4 26




Delwedd y clawr: Llifogydd afon (afonol) yng Nghaerfyrddin yn effeithio'n ddifrifol ar fusnesau lleol gan achosi difrod helaeth - Rhagfyr 2015 Awdur: Algis Motuza - Ffynhonnell: Alamy

Y ddelwedd hon:
Awdur: Volodymyr / stock.adobe.com

# Byrfoddau

Gweler rhestr o fyrfoddau a ddefnyddir yn yr hyfforddiant hwn isod:

| | |
|---|---|
| **AHDB** | Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth |
| **CCACCP** | Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol |
| **CCJ** | Dyfarniad Llys Sirol |
| **CCRAs** | Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd |
| **CMA** | Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y Deyrnas Unedig |
| **COSHH** | Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd |
| **CO2** | Carbon Deuocsid |
| **C3S** | Gwasanaeth Newid Hinsawdd Copernicus yr Undeb Ewropeaidd |
| **ENA** | Cymdeithas Rhwydwaith Ynni |
| **EPD** | Datblygu Cynnyrch Presennol |
| **GDPR** | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data |
| **GHG** | Nwy Tŷ Gwydr |
| **HACCP** | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol |
| **ICT** | Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| **INNS** | Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol |
| **IPCC** | Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd |
| **ISSB** | Bwrdd Safonau Cynaliadwyedd Rhyngwladol |
| **MPRN** | Rhifau Cyfeirnod Pwynt Mesurydd |
| **NPD** | Datblygu Cynnyrch Newydd |
| **NRW** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **ONS** | Swyddfa Ystadegau Gwladol y Deyrnas Unedig |
| **RCPs** | Llwybrau Crynoadau Cynrychioliadol |
| **TCFD** | Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd |
| **UK SDS** | Safonau Datgelu Cynaliadwyedd y Deyrnas Unedig |
| **UKCCC** | Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig |
| **UNEP** | Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig |
| **WMO** | Sefydliad Meteorolegol y Byd |
| **WRAP** | Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau |

# Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd

Nod y modiwlau hyfforddiant yw annog busnesau i ddod yn ymwybodol o'r hinsawdd yn eu gweithrediadau bob dydd trwy ddarparu cymorth ymarferol i feithrin y sgiliau a'r ymagweddau sydd eu hangen i ddelio'n llwyddiannus â digwyddiadau anrhagweladwy.




Trwy gydnabod y risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil newid hinsawdd a gwneud addasiadau tra ystyriol, gall eich busnes gryfhau ei gydnerthedd i ddelio â sociau o fewn eich cadwyni cyflenwi, lleihau neu osgoi effeithiau negyddol a manteisio ar y cyfleoedd a allai godi.

Dyma'r trydydd o 8 modiwl rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n eu cael yn graff ac yn ddefnyddiol.

# Sut i ðdefnyddio'r modiwl hyfforddiant hwn

Cynlluniwyd y modiwlau hyfforddiant fel canllawiau addysgiadol i'ch helpu i asesu'ch busnes yng nghyd-destun newid hinsawdd.

Er bod pob menter bwyd a diod yn unigryw, rydym yn gobeithio trwy ddewis a gweithredu ar y modiwlau sydd fwyaf perthnasol i'ch busnes chi, y byddwch yn creu fframwaith i benderfynu ar yr addasiadau sydd eu hangen i wneud eich busnes yn fwy cydnerth i newid hinsawdd, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r modiwlau hyfforddiant wedi'u strwythuro yn y ffordd ganlynol:

**Modiwl 1: Cyflwyniad i Addasu i Newid Hinsawdd**

**Module 2:** Cyflwyno Risg a Rheoli Newid ac ymagwedd CCACCP

(Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol)

**Modiwl 3: Safleoedd a Mynediad**

**Modiwl 4: Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu Bwyd**

**Modiwl 5: Cadwyni Cyflenwi a Mewnbynnau Busnes**

**Modiwl 6: Ystyriaethau Cyllid a Chyfreithiol**

**Modiwl 7: Staff a Darparwyr Gwasanaethau**

**Modiwl 8: Cwsmeriaid a Defnyddwyr**

Trwy gydol y modiwlau, byddwch yn dod o hyd i enghreifftiau, cyfeiriadau a dolenni at restrau gwirio a thempledi golygadwy i'ch helpu i asesu a gweithredu'r newidiadau dymunol yn eich busnes.

# Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi a'r canllawiau cam wrth gam

Trwy glicio ar y dolenni a ddangosir trwy gydol y modiwlau hyfforddiant, gallwch gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi neu'r canllawiau cam wrth gam o'ch dewis chi.

Bydd y ddolen yn mynd â chi at leoliad Dropbox lle bydd gennych chi nifer o ddewisiadau:

1. Os oes gennych chi gyfrif Dropbox eisoes, gallwch chi fewngofnodi i hwn.
2. Os ydych chi'n dymuno creu cyfrif Dropbox, mae'r opsiwn hwn ar gael i chi.
3. Os ydych chi'n syml yn dymuno cael mynediad at y ddogfen, cliciwch ar y saeth Lawrlwytho i'w lawrlwytho i'ch dyfais.



# Safleoedd a Mynediad

Mae ein maes ffocws cyntaf yn ystyried yr adeiladau a'r safleoedd sy'n ffurfio'r lleoliadau pwysig ar gyfer eich busnes, yn ogystal â sut caiff y rhain eu cyrraedd. Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng safleoedd a mynediad a'n pum pwnc arall, ond yma byddwn yn canolbwyntio ar adeiladau ffisegol, tir a'r llwybrau sy'n galluogi staff a nwyddau i gyrraedd y rhain.

## Risgiau hinsawdd ar gyfer safleoedd a llwybrau mynediad

Bydd niwed i'r lleoliadau allweddol hyn neu heriau eraill sy'n deillio o effeithiau hinsawdd, fel diffyg mynediad, yn cael effaith sylweddol ar eich gallu i barhau i gynhyrchu a chyflenwi eich cwsmeriaid. Mae'r hinsawdd yn effeithio'n uniongyrchol ar eiddo y mae'ch busnes yn berchen arno neu'n ei rentu'n uniongyrchol, yn ogystal â safleoedd neu gyfleusterau storio ar gyfer deunyddiau crai, peiriannau, gwasanaethau. Ar ben hynny, mae angen ystyried cyflenwyr logisteg, unrhyw gyd-bacwyr a'ch prif gwsmeriaid, hefyd.

Bydd gan bob lleoliad wahanol fathau a lefelau o fygythiadau, ond mae'r matrics hwn yn dangos rhai o'r prif ddigwyddiadau hinsawdd sydd wedi'u hamlygu ar gyfer Cymru ac yn rhoi rhai enghreifftiau o sut gallai'r rhain effeithio ar safleoedd a llwybrau mynediad.

**Risgiau Posibl yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd ar gyfer Safleoedd a Llwybrau Mynediad**

| | | Risg | Safleoedd | Llwybrau mynediad |
|---|---|---|---|---|
| Risgiau hinsawdd uniongyrchol | Llifogydd | Afonydd a chyrsiau dŵr yn gorlifo neu systemau draenio wedi'u llethu | Llifddwr budr yn mynd i mewn i'r safle ac adeiladau ac yn eu halogi / pibellau tanddaearol yn cael eu datguddio | Methu defnyddio ffyrdd a phontydd – gallai hyn fod dros dro neu'n dymor hwy |
| | Difrod storm | Gwynt, mellt a glaw yn difrodi adeiladau neu'r safle | Toeau, waliau, drysau ac offer allanol yn cael eu difrodi | Coed yn cwympo, tirlithriadau neu strwythurau neu gerbydau wedi'u difrodi yn rhwystro mynediad |
| | Cwymp eira | Cwymp eira trwm a / neu'n lluwchio | Symudiad o gwmpas y safle wedi'i rwystro, pibellau'n rhewi, difrod i strwythurau | Staff a danfoniadau i mewn / allan yn methu cyrraedd y safle |
| | Tymereddau eithafol | Tywydd poeth neu gyfnodau hir o rewi | Lles staff a / neu'r gadwyn oeri yn cael ei niweidio, cynhyrchiant yn gostwng | Ffyrdd yn beryglus oherwydd rhew neu wres yn hollti/toddi'r tarmac |
| Rigsiau hinsawdd anuniongyrchol | Colli cyfleustodau | Colli cyflenwadau trydan, nwy a/neu ddŵr, methu rheoli elifiant yn ddiogel | Peiriannau, rheweiddio, protocolau hylendid ddim yn weithredol mwyach | Pympiau tanwydd ddim yn weithredol felly trafnidiaeth yn cael ei hatal |
| | Ymsuddiant | Diraddiant tir gwaelodol sy'n difrodi'r adeiladau sydd arno | Gallai fod yn sgil sioc neu groniad araf o ddiraddiant yn gysylltiedig â'r hinsawdd | Ffyrdd wedi'u tanseilio neu eu rhwystro gan dirlithriadau |
| | Plâu | Llygod mawr neu blâu eraill yn cael eu hel allan gan lifddwr/pryfed yn heidio | Dyfeisiau rheoli plâu yn cael eu golchi i ffwrdd neu eu llethu | Perygl o blâu yn dod i mewn i'r adeilad trwy gilfachau docio neu ddrysau |
| | Tân | Tanau gwyllt yn tresmasu ar y safle / deunyddiau'n llosgi oherwydd gwres eithafol | Bygythiad i fywyd, colli adeiladau ac offer allweddol, risgiau halogi diogelwch bwyd | Mynediad i'r safle wedi'i beryglu, gan gynnwys ar gyfer y gwasanaethau brys / tanau ar lwybraun yn atal danfoniadau |

Mae fersiwn golygadwy o'r templed ar gael i'ch helpu i asesu a sgorio eich risgiau hinsawdd eich hun.

Cliciwch yma am templed Risgiau Hinsawdd i Safleoedd a Llwybrau Mynediad

Bydd gwybod gwybodaeth allweddol am leoliad ffisegol eich busnes – a'i hanes blaenorol o ran digwyddiadau yn ymwneud â'r tywydd – yn help mawr wrth ystyried y posibilrwydd iddo gael ei beryglu gan ddigwyddiadau hinsawdd.

Cofiwch, gallai materion yn ymwneud â'r hinsawdd ddeillio o ddigwyddiadau tywydd eithafol sydyn ac yn araf dros gyfnod – felly, mae'n ddefnyddiol cadw'r ddau senario hyn mewn cof wrth wneud eich asesiadau.

Er enghraifft, pe byddech chi'n meddwl am y tir y mae'ch busnes yn sefyll arno, efallai y byddwch yn wynebu risg gynyddol o ymsuddiant neu ddifrod i sylfeini adeilad. Ar ben hynny, gall pibellau neu geblau tanddaearol gael eu difrodi oherwydd cylchoedd blynyddol cyson o'r pridd yn rhewi neu'n ddyfrlawn ac yna'n sychu ac yn hollti yn ystod tywydd poeth.

Gallech hefyd ystyried pa wybodaeth a mesuriadau fyddai'n ddefnyddiol wrth asesu risg a pha bryd y gallai fod achos i bryderu:

| Amodau'r hinsawdd | Mesurau posibl |
|---|---|
| Gormodedd o ddŵr a sychder | Glawiad blynyddol, glawiad brig mewn unrhyw ddiwrnod unigol<br>Hyd glawiad hir neu gyfnodau heb law<br>Lefelau dŵr mewn afonydd a chronfeydd dŵr |
| Tymheredd | Tymereddau dyddiol, wythnosol a misol Hyd cyfnodau oer iawn neu dywydd poeth |
| Stormydd a gwynt | **Amlder stormydd a enwir neu stormydd arwyddocaol**<br>**Buanedd y gwynt – cyflymder cyfartalog a hyrddiau** |

## Cynnal teithiau cerððeð ymwyboðol o'r hinsawðð o gwmpas y safle

Mae cynnal teithiau cerdded o gwmpas y safle yn ffordd bwysig o ddeall lle gallai'r risgiau i'ch safle fod.

Mae'n arfer gorau i wneud hyn nifer o weithiau mewn tywydd gwahanol. Mae gan daith gerdded o gwmpas y safle yn ystod tywydd poeth y potensial i dynnu sylw at faterion gwahanol i'r rhai y gallech eu nodi ar ddiwrnod gwyntog iawn neu pan fyddwch wedi cael sawl diwrnod o law trwm.

Cyfunwch eich gwybodaeth â gwybodaeth aelodau eich tîm neu breswylwyr lleol hirdymor eraill sy'n gwybod am hanes yr ardal. Trwy ddod â'r holl wybodaeth hon ynghyd, byddwch yn creu un ddogfen a fydd yn arf cyfeirio  defnyddiol, nid yn unig ar gyfer cynnal eich asesiad risg ond hefyd mewn argyfwng neu pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau pwysig o ran buddsoddi.

Mae rhestr wirio Teithiau Cerdded o Gwmpas y Safle ar gael i awgrymu rhai o'r pethau y gallech fod am eu hystyried wrth i chi gynnal eich teithiau cerdded o gwmpas y safle dan amodau gwahanol.

Trwy asesu adeiladau newydd a phresennol o ran eu cydnerthedd i risgiau cyfredol a newidiadau hinsawdd yn y dyfodol, gallwch gynllunio camau adferol, uwchraddio neu waith adeiladu newydd mewn ffordd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd.

Cliciwch yma am restr wirio Teithiau Cerdded o Gwmpas y Safle y gellir ei golygu

Bydd hyn yn cynnwys dewis opsiynau sydd nid yn unig yn fuddiol o ran datrys problem neu fygythiad posibl, ond hefyd na fydd yn arwain at fwy o ddifrod hinsawdd na thanseilio eich cynllunio sero net.

Mae unrhyw ddifrod neu ddigwyddiadau mynych sy'n gwanhau strwythurau yn cynyddu'r risg o ddymchwel, diraddio deunyddiau adeiladu a gall danseilio cyfanrwydd strwythurol eich adeiladau, hyd yn oed. Mae'n werth meddwl sut y gallai hyn leihau hyd oes eich adeilad a pha golled o ran gwerth y gallech fynd iddi oherwydd hynny.

Gallai gwneud buddsoddiadau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd sy'n dra ystyriol ac wedi'u blaenoriaethu'n briodol arbed arian i chi yn y tymor hir; er enghraifft, mae'r Sefydliad Gwyddor Adeiladu yn America wedi cyfrifo y gallai fod arbedion ar gymhareb o 1:4 neu hyd yn oed mor uchel ag 1:11[1].

# Ffocws ar: Lifogydd

Mae llifogydd yn risg allweddol a chynyddol yng Nghymru. Gallai llifogydd fod yn ddifrifol dros ben i'ch busnes. Gallai'r effeithiau amrywio o beryglu bywydau pobl ar y safle, i golli asedau hanfodol a methu parhau i weithredu am gyfnod amser a all fod yn sylweddol.

Bydd cynllunio ymhell ymlaen llaw a bod â'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar flaenau eich bysedd yn eich cynorthwyo'n sylweddol i gymryd camau cyflym os bydd llifogydd ar ddigwydd neu i adfer ynghynt ar ôl llifogydd.

Pe byddai'r gwaethaf yn digwydd, ni fyddech am bendroni dros beth i'w wneud a sut i gael gafael ar y bobl allweddol a allai eich helpu mewn argyfwng.

## Mathau o berygl llifogydd

Mae 2 brif fath o lifogydd, sef afonol a glawog.

Bydd pa un o'r 2 fath hyn sydd wedi digwydd yn dylanwadu ar bwy allai fod yn gysylltiedig ag ymdrin â digwyddiad gyda chi, fel mae'r ffeithlun hwn yn dangos.

# Perygl llifogydd – cwestiynau i'w gofyn i chi'ch hun am eich safle

- Lle mae'r bygythiadau llifogydd "afonol" agosaf at eich safle chi? Gallai hyn fod o afonydd neu gronfeydd dŵr, yr arfordir neu gyrsiau dŵr sefydledig eraill.
- A yw eich lleoliad yn wynebu risg o lifogydd "glawog"? Mae safleoedd sydd ar gyffordd lle mae sawl ffordd yn cyfarfod â'i gilydd mewn perygl o ddŵr sy'n gorlifo yn cael eu sianelu i'r fan honno. Yn yr un modd, os ydych ar ran isaf bryn, bydd gormodedd o ddŵr yn llifo i lawr tuag atoch.
- A allai eich draeniau a'ch awyrellau gynnig ffyrdd i lifddwr fynd i mewn i'ch adeiladau? A allech chi gyflwyno falfiau i atal ôl-lifiad neu orchuddion awyrellau i leihau'r risg hon?
- Faint o stoc ydych chi'n ei gadw ar lefel y llawr – a fyddai ei godi ar raciau yn ei gadw'n ddiogel mewn llifogydd?
- A allech chi osod eich pwyntiau trydan hanner ffordd i fyny'r waliau ar y safle? Byddai hyn yn golygu na fyddai mor hawdd i ddŵr fynd i mewn iddynt.
- Er efallai na fydd eich safle mewn perygl uniongyrchol, beth am y ffyrdd rydych yn dibynnu arnynt er mwyn i staff a nwyddau eich cyrraedd? A oes unrhyw bontydd a allai fod ar gau neu ffyrdd a allai fod dan ddŵr?
- A oes cynlluniau wrth gefn y gallech chi eu rhoi ar waith pe na fyddai modd defnyddio'r llwybrau hyn?

Yn ddiweddarach yn y modiwl hwn, byddwn yn awgrymu ffyrdd i asesu'r ffyrdd sy'n bwysig i gynnal eich busnes. Mae'n ddefnyddiol ystyried pwy sy'n defnyddio pa ffyrdd i'ch cyrraedd a'r rhai rydych chi'n eu defnyddio ar gyfer cludiant allan.

Cliciwch yma ar gyfer templed golygadwy i helpu i greu eich Asesiad Perygl Llifogydd

Llifogydd yw'r prif berygl hinsawdd yng Nghymru a bu'r achosion o lifogydd yn cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae'r graff[2] hwn yn dangos, yn y cyfnod o 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024, sut y bu dros deirgwaith nifer y llifogydd mawr ar afonydd Gwy, Hafren a Thefeidiad sy'n llifo trwy rannau dwyreiniol o Gymru ac i mewn i Loegr.

Gallwch gyfeirio at wybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i'ch helpu i asesu'r risg yn eich lleoliadau allweddol yng Nghymru.

Mae gan CNC rôl oruchwylio strategol sy'n cynnwys goruchwyliaeth gyffredinol a chyfathrebu ynghylch rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Hefyd, mae ganddynt bwerau i reoli llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr ac i weithredu mewn sawl swyddogaeth o reolydd i gynghorydd, tirfeddiannwr a gweithredwr ac ymatebwr brys.




**Data a atgynhyrchwyd â chaniatâd caredig gan Dave Throup, cyn Reolwr Ardal Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon gyda data a gymerwyd a fesuryddion afonydd trwy Hydrology Data Explorer.**

Tir fferm dan ddŵr yn nyffryn Llugwy ger Llanandras, Powys, Cymru.
Awdur: Alex Ramsay - Ffynhonnell: Alamy

# Asesu'r perygl o lifogydd yn eich lleoliad chi yn y dyfodol

Fel rydym wedi gweld, rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn dwyn risg gynyddol o ddigwyddiadau hinsawdd annisgwyl ledled Cymru.

Mae CNC wedi asesu'r rhagfynegiadau hyn o ran newid hinsawdd ac wedi nodi pa gymunedau yng Nghymru y mae'n credu y byddant yn wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd erbyn 2100.

## Rhagfynegiadau CNC o'r cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd yn y dyfodol erbyn 2100




Cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd o afonydd yn y dyfodol:

- Treganna
- Dyffryn
- Grangetown
- Bae Cinmel
- Ystum Taf
- Castell-nedd
- Port Talbot
- Y Rhondda
- Y Rhyl
- Glan yr Afon

Cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd o'r môr yn y dyfodol:

- Grangetown
- Bae Cinmel
- Llyswyry
- Llandudno
- Llanelli
- Maendy
- Port Talbot
- Prestatyn
- Y Rhyl
- Glan yr Afon

Yn ei "Adroddiad blynyddol rheoli perygl llifogydd 2023 i 2024"[3] mae CNC hefyd wedi nodi, ledled Cymru, y rhagwelir y bydd dros 130,000 eiddo mewn perygl o lifogydd o'r môr a bron 130,000 eiddo mewn perygl o lifogydd o afonydd erbyn 2120. Roedd Adroddiad Blynyddol 2023 i 2024 CNC hefyd yn nodi cynnydd sylweddol yn nifer y gwyliadwriaethau a'r rhybuddion llifogydd a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod. Cynyddodd y nifer 15.6%, o 914 yn 2023 i 1,057 yn 2024, gan amlygu'r heriau cynyddol y mae newid hinsawdd yn eu hachosi a'r angen am strategaethau effeithiol i reoli'r perygl o lifogydd.

Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod rhagamcanion hinsawdd yn dangos digwyddiadau tywydd eithafol mwy aml a dwys, gan gynnwys stormydd yn yr haf a chyfnodau gwlyb hirfaith yn ystod y gaeaf. Mae'n cydnabod ei bod yn anodd iawn darogan a rhagweld llifogydd tebyg, ond y byddant yn cynyddu llifoedd brig mewn afonydd yng Nghymru, gan gynyddu'r perygl o fflachlifoedd. Mae'n nodi y gall canlyniadau negyddol y digwyddiadau tywydd hyn fod yn heriol iawn i'w rheoli.

Mae hefyd yn arsylwi bod rhagamcanion hinsawdd yn nodi y bydd lefel y môr yn codi ac y bydd ardaloedd arfordirol yn fwyfwy agored i fwy o effaith tonnau ac erydiad arfordirol cyflymach sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Bydd yr effeithiau hyn yn effeithio nid yn unig ar y rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd arfordirol, ond hefyd ar rai o'r cynefinoedd naturiol a'r safleoedd treftadaeth pwysicaf sydd wedi'u lleoli ar hyd arfordir Cymru.

Mae tablau CNC isod yn dangos lefel bresennol y perygl a ffynhonnell y perygl o lifogydd ledled Cymru pe na fyddai unrhyw amddiffynfeydd yn bresennol ar gyfer 2024 a 2120 ac maent yn gywir ym mis Ebrill 2024.

Rhagamcanion CNC: nifer yr eiddo a'r gwasanaethau yng Nghymru a fydd mewn perygl o lifogydd erbyn y flwyddyn 2120

| Llifogydd o afonydd | Eiddo preswyl mewn perygl | Eiddo dibreswyl mewn perygl | Gwasanaethau allweddol mewn perygl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2024 | 90,504 | 12,565 | 2,495 | 105,564 |
| 2120 | 111,377 | 15,486 | 3,067 | 129,930 |
| Gwahaniaeth | +20,873 | +2,921 | +572 | +24,366 |

| Llifogydd o'r môr | Eiddo preswyl mewn perygl | Eiddo dibreswyl mewn perygl | Gwasanaethau allweddol mewn perygl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2024 | 79,536 | 9,415 | 1,857 | 90,808 |
| 2120 | 112,700 | 14,411 | 3,086 | 130,197 |
| Gwahaniaeth | +33,164 | +4,996 | +1,229 | +39,389 |

| Llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach | Eiddo preswyl mewn perygl | Eiddo dibreswyl mewn perygl | Gwasanaethau allweddol mewn perygl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2024 | 126,747 | 13,626 | 3,301 | 143,674 |
| 2120 | 170,196 | 17,395 | 4,375 | 191,966 |
| Gwahaniaeth | +43,449 | +3,769 | +1,074 | +48,292 |

Mae'n bosibl y bydd eich staff yn byw mewn ardaloedd lle mae eiddo preswyl mewn mwy o berygl a gallai eich cyflenwyr, cwsmeriaid neu ddarparwyr gwasanaethau fod wedi'u lleoli yn yr ardaloedd lle mae eiddo masnachol/dibreswyl mewn mwy o berygl.

Er y gallai 2120 ymddangos ymhell yn y dyfodol, o ystyried natur anrhagweladwy cyfradd y newid yn yr hinsawdd, mae pob siawns y bydd y risgiau hyn yn real iawn yn y degawd nesaf, hyd yn oed.

Felly, mae'n bwysig bod eich busnes yn wybodus ac yn gallu gwneud penderfyniadau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd am fuddsoddiadau, fel comisiynu safleoedd newydd neu ymestyn prydlesi eiddo presennol.

## Cynllunio ar gyfer llifogydd

Fel rhan o'ch cynllunio ar gyfer llifogydd, bydd yn werthfawr i chi ddynodi cyfrifoldeb i un neu fwy o bobl allweddol yn eich busnes i fonitro'r tywydd a'r perygl o lifogydd yn barhaus.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnig gwybodaeth ac awgrymiadau i'ch helpu i gynllunio ar gyfer llifogydd sydd wedi'u hachosi gan lifogydd afonol ac arfordirol mawr ac ymdrin â nhw.

Gall unrhyw un sydd wedi cael y dasg monitro roi eu manylion cyswllt e-bost a ffôn i CNC a chofrestru ar gyfer rhybuddion llifogydd am ddim gan ddefnyddio'r ddolen yma, neu gallent ffonio'r llinell gymorth 24 awr.

Bydd gwasanaeth rhybuddion llifogydd CNC yn rhoi gwybod i chi am y math o rybudd llifogydd – fel y dangosir isod – a bydd mapiau'n dangos y lleoliad dan sylw, pryd y disgwylir i hyn ddigwydd a pha gamau i'w cymryd.

**Ffonio'r Gwasanaeth Floodline 24 awr:**
**Ffôn: 0345 988 1188**
**Type Talk: 0345 602 6340**

Caiff rhybuddion llifogydd sy'n cwmpasu ardaloedd mawr eu cyhoeddi ynghynt ac yn amlach na rhybuddion llifogydd gan roi rhybudd ymlaen llaw i chi am y posibilrwydd o lifogydd. Mae hefyd yn bosibl gwirio eich perygl o lifogydd yn ôl eich cod post, gweld lefelau diweddaraf afonydd, glaw a'r môr, gweld rhybuddion llifogydd pum niwrnod a deall pa gamau i'w cymryd.

Ar ôl glawiad trwm yn yr hydref, roedd caeau ym Mhowys, Cymru dan ddŵr llifogydd ym mis Tachwedd 2023.
Awdur: Ben Birchall – Ffynhonnell: Alamy

Mae'r mapiau isod, sydd o gynlluniau rheoli perygl llifogydd 2023 i 2029 CNC ar gyfer Cymru, yn dangos ei 6 ardal weithredol – a elwir yn Lleoedd CNC – a lleoliadau cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd a'r môr.

Gallwch wirio perygl penodol eich lleoliad chi gyda CNC trwy roi eich cod post neu drwy ddefnyddio'r map rhyngweithiol ar ei wefan.




Lleoedd CNC:
6 Ardal Weithredol CNC yng Nghymru




Cymunedau yng Nghymru sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd o afonydd. Yr ardaloedd sydd wedi'u lliwio'n goch neu'n oren sydd â'r perygl mwyaf, gwyrdd sydd â'r perygl lleiaf.




Cymunedau yng Nghymru sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd o'r môr. Yr ardaloedd sydd wedi'u lliwio'n goch neu'n oren sydd â'r perygl mwyaf, gwyrdd sydd â'r perygl lleiaf.

**Beth yw ystyr y lefelau perygl llifogydd:**

**Perygl "uchel" o lifogydd =** bob blwyddyn, mae'r siawns o lifogydd yn fwy nag 1 mewn 30 (3.3%).

**Perygl "canolig" o lifogydd =** bob blwyddyn, mae'r siawns o lifogydd rhwng 1 mewn 100 (1%) ac 1 mewn 30 (3.3%) ar gyfer afonydd neu rhwng 1 mewn 200 (0.5%) ac 1 mewn 30 (3.3%) ar gyfer llifogydd o'r môr.

**Perygl "isel" o lifogydd =** bob blwyddyn, mae'r siawns o lifogydd rhwng 1 mewn 1000 (0.1%) ac 1 mewn 100 (1%) ar gyfer afonydd neu rhwng 1 mewn 1000 (0.1%) ac 1 mewn 200 (0.5%) ar gyfer llifogydd o'r môr.

# Paratoi cynllun llifogydd a chymryd camau ataliol

Byddwch yn barod trwy gynllunio ar gyfer beth fyddech chi'n ei wneud mewn sefyllfa o lifogydd.

Er enghraifft:

- Paratowch becyn llifogydd.
- Cytuno â phwy y byddai angen i chi gysylltu a phwy ddylai wneud hyn.
- Cofnodwch ble a sut i ddiffodd cyfleustodau allweddol.
- Cynlluniwch sut i ddefnyddio'ch cofrestr asedau (gweler adran cofrestr asedau'r modiwl hwn) i flaenoriaethu beth i geisio ei dynnu o'r ardaloedd sydd dan ddŵr.

Cliciwch yma i gael rhestr wirio olygadwy ar gyfer Cynllun Llifogydd a luniwyd ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd a diod

Gan ddefnyddio ymagwedd ehangach sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, pa gamau ataliol hoffech chi eu rhoi ar waith i sicrhau eich bod wedi'ch diogelu rhag peryglon llifogydd yn y dyfodol?

A allwch chi bennu amserlen ar gyfer y rhain, gan gynnwys "camau cyflym" tymor byr a gweithgareddau tymor canolig a thymor hir a fydd yn mynnu mwy o gynllunio a chyllid. Mae templed defnyddiol ar gael ar gyfer hyn.

# Mynd i'r afael â pheryglon llifogydd

Ystyriwch y canlynol:

- Trefnwch unrhyw atgyweiriadau neu waith adfer ar eich safle – gan gynnwys gwiriadau rheolaidd ar eich cafnau, pibellau dŵr a draeniau.
- Cadwch stoc, offer, sylweddau peryglus ac unrhyw beth a all achosi halogiad mewn lle addas – a pheidiwch ag aros am lifogydd i'w symud, oherwydd gallai fod yn rhy hwyr ac yn rhy beryglus bryd hynny!
- Ystyriwch ofyn i'ch plymwr a/neu drydanwr adolygu eich risgiau ac awgrymu gwelliannau i reoli/atal effeithiau llifogydd.
- Meddyliwch am yr hyn y byddai angen i chi ei symud i rywle diogel pe byddai llifogydd ar fin digwydd: cerbydau, sylweddau peryglus, peiriannau, TG ac offer trydanol arall, dodrefn swyddfa, offer labordy – defnyddiwch y templed golygadwy sy'n cyd-fynd â'r modiwl hwn i greu rhestr sy'n adlewyrchu amgylchiadau eich busnes.
- Os yw eich safle mewn ardal lle mae perygl o lifogydd neu os ydych wedi wynebu llifogydd o'r blaen, ystyriwch gael syrfëwr siartredig i gynnal arolwg llifogydd. Bydd hyn yn rhoi gwybod i chi ble gallai llifddwr ddod i mewn i'ch eiddo, pa mor gyflym y bydd yn llifo a ble y gallai achosi'r difrod gwaethaf.
- Yna, gall y syrfëwr ddefnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddewis y mesurau amddiffyn gorau rhag llifogydd ar gyfer eich eiddo. Gallai gosod y cynhyrchion amddiffyn rhag llifogydd anghywir olygu eu bod yn aneffeithiol neu achosi mwy o ddifrod mewn llifogydd hyd yn oed na chael dim byd yn ei le.

# Paratoi pecyn llifogydd

Mae CNC, Asiantaeth yr Amgylchedd a llawer o awdurdodau lleol yn argymell y dylai pob busnes sydd mewn perygl o lifogydd baratoi pecyn llifogydd. Mae rhestr wirio olygadwy ar gael ar gyfer hyn.

Cliciwch yma ar gyfer Rhestr Wirio Pecyn Llifogydd

Gallai'ch pecyn llifogydd gael ei gadw mewn bag neu flwch sy'n cael ei gadw'n rhywle diogel ac sy'n hawdd ei gyrraedd mewn argyfwng. Dylai gynnwys eitemau hanfodol y bydd eu hangen arnoch i gadw'r busnes i fynd os na allwch gyrraedd neu adael eich safle arferol am ychydig ddyddiau, er enghraifft:

- Dogfennau pwysig fel:
  - Sawl copi o'ch cynllun llifogydd i'w ddosbarthu i'r rhai sy'n helpu i gyflawni'r cynllun.
  - Eich cofrestr asedau.
  - Eich dogfennau yswiriant.
- Allweddi i ardaloedd hollbwysig, fel y mannau lle gellir diffodd pŵer a dŵr a'ch storfeydd COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd).
- Eich rhestr cysylltiadau allweddol – rhestr o rifau ffôn pwysig a sicrhewch eich bod yn gwybod â phwy i gysylltu a sut:
  - Floodline 0345 988 1188.
  - Rhifau cyswllt aelodau staff allweddol.
  - Rhifau cyswllt cyflenwyr gwasanaethau allweddol e.e. peirianwyr, contractwyr hylendid, rheoli pla.
  - Rhifau cyswllt ar gyfer cwsmeriaid allweddol.
  - Llinell gymorth brys yr awdurdod lleol.
  - Rhif ffôn 24 awr eich cwmni yswiriant a'ch rhif(au) polisi.
  - Eich cyflenwr trydan.
  - Eich cyflenwr rheoli dŵr/carthffosiaeth/elifiant.
  - Eich cyflenwr nwy.
- Amledd gorsafoedd radio lleol, gwefannau neu gysylltiadau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer rhybuddion newyddion a diweddariadau ar y tywydd.
- Offer fel:
  - Ffonau symudol a gwefrwyr.
  - Radio sy'n gweithio â batris – er mwyn i chi allu gwrando ar ddiweddariadau radio lleol.
  - Tortshis.
  - Batris ychwanegol.
  - Camera i dynno lluniau o ddifrod.
  - Radios dwy ffordd ar gyfer aelodau staff.
  - Menig rwber, esgidiau glaw neu ddillad gwrth-ddŵr eraill.
  - Mygydau wyneb a hylif diheintio dwylo.
  - Pecyn cymorth cyntaf.
  - Dŵr potel (sicrhewch nad yw wedi dyddio).

# Sbarduno cynlluniau llifogydd eich busnes

Mae CNC yn cyhoeddi rhybuddion llifogydd yn amodol ar lefel y risg a difrifoldeb y llifogydd a ragwelir.

Mae'r diagram isod yn esbonio beth mae'r rhybuddion llifogydd yn ei olygu a beth maent yn awgrymu y dylai eich busnes ei wneud er mwyn ymateb i'r cyfathrebiadau hyn.

Mae Swyddfa Dywydd y DU hefyd yn cyhoeddi rhybuddion â chod lliw a all gyfeirio at un neu fwy o amodau tywydd disgwylir – er enghraifft, Rhybudd Oren GLAW neu Rybudd Coch EIRA. Mae'r rhain yn eich galluogi i roi eich cynlluniau ar waith i gadw pawb yn ddiogel a chadw eich busnes yn gweithredu'n rhwydd.

## Triggering your business's flood plans

| Flood Warnings | 0 Severe Flood Warnings | 2 Flood Warnings | 13 Flood Alerts | Last Warning issued Thu, 4 Jan 2024 16:32:16 |
|---|---|---|---|---|

**Symbols You May See**

**24-hour Floodline service: Telephone: 0345 988 1188 Type talk: 0345 602 6340.**

| NRW | Met Office | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Yellow Warning | Trigger 1 | Flood Alert<br>Flooding is possible and you should be prepared | Issued 2 hours to 2 days in advance of flooding | What to do at this stage | • Monitor the situation closely via NRW, Met Office & local radio<br>• Locate your flood kit and check it is complete and everything is in good working order<br>• Issue your flood plan to key staff members<br>• Ensure that any flood protection measures are in place or ready to install |
| | Amber Warning | Trigger 2 | Flood Warning<br>Flooding is expected and immediate action is required | Issued half an hour to one day in advance of flooding | What to do at this stage | • Continue to monitor the situation closely via NRW, Met Office & local radio<br>• Ensure all employees are safe<br>• Move electrical equipment, stock, vehicles and other critical assets to higher levels<br>• Deploy flood resilience e.g. door barriers, pumps, vent covers |
| | Red Warning | Trigger 3 | Severe Flood Warning<br>Severe flooding and danger to life | Flooding poses a significant risk to life/ significant disruption to the community | What to do at this stage | • Initiate your evacuation procedures<br>• Ring 999 if anyone on site is in danger and cooperate with emergency services to ensure everyone's safety<br>• If safe to do so, initiate "switch off" plans |

# Effeithiau hinsawdd eraill

Gallai'ch adeiladau fod yn agored i effeithiau eraill o newid hinsawdd y tu hwnt i lifogydd, hefyd. Gellir effeithio ar nodweddion strwythurol yr adeilad a'r amodau y tu mewn i'r adeilad, felly mae'n werth i chi ystyried ffactorau fel yr isod:

- A oes rhannau o'ch adeiladau – fel y to neu strwythurau allanol fel seilos neu unedau storio – a fyddai'n agored i niwed gan y gwynt pe byddech yn dioddef stormydd mwy cyson?
- A ydych yn cynnal ac yn clirio'r cafnau neu sianeli draenio ar draws y safle?
- A allai pwysau eira trwm achosi difrod gwasgu neu amodau rhewllyd achosi i bibellau sy'n agored i'r tywydd hollti?
- A allwch chi reoleiddio tymereddau dan do yn briodol ac osgoi anghysur thermol i staff a phobl eraill ar y safle, a allai arwain at effeithiau negyddol ar iechyd, lles a cholli cynhyrchiant? Efallai y bydd angen systemau gwresogi ac/neu oeri ar adeiladau i alluogi'r bobl sy'n eu defnyddio i ymdopi ag anghysur thermol sy'n cael ei achosi gan dymereddau eithafol.
- A ydych yn gweithredu amgylcheddau oer neu wedi'u rhewi a sut gallai tymereddau eithafol neu dywydd difrifol effeithio ar y rhain?
- A yw eich safle'n agos at rostir neu ardaloedd coediog sydd mewn perygl o danau gwyllt mewn amodau poeth a gwyntog?

Swyddog tân yn brwydro i reoli tân gwyllt ar weundir grug ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Awdur: Jeff Morgan 09 – Ffynhonnell: Alamy

# Pwysigrwyðð eich Llwybrau Mynediad

Yn ogystal â'ch adeiladau a'ch safle eich hun, mae gallu cyrraedd y ffyrdd i mewn ac allan o'ch lleoliad yn rhan hanfodol o sicrhau parhad eich busnes.

Os na all eich staff a'ch nwyddau sy'n dod i mewn eich cyrraedd ac os na allwch anfon archebion eich cwsmeriaid, byddai hyn yn cael effaith negyddol ar eich busnes yn sydyn iawn.

Felly, mae'n ymarfer gwerthfawr i chi fapio'r llwybrau sy'n hanfodol ar gyfer cyrraedd eich safle neu leoliadau allweddol eraill eich busnes.

Mae nifer o opsiynau y gallech eu mabwysiadu i'ch galluogi i weld y llwybrau i'ch lleoliad.

## Opsiynau ar gyfer mapio eich llwybrau mynediad

Trwy greu cynrychiolaeth diagramatig o'r llwybrau hyn â rhifau'r ffyrdd a mannau bregus posibl wedi'u nodi, gallwch weld yn gyflym y goblygiadau o ran mynediad pe byddai ffyrdd neu bontydd yn cael eu cau. Dyma rai awgrymiadau ac mae templed defnyddiol i'ch helpu â'r ymarfer hwn.

Copïau papur o fapiau ac atlasau ffordd – efallai yr hoffech ddefnyddio mapiau traddodiadol wedi'u plygu neu atlasau ffordd. Mae nifer o opsiynau ar gael yn eang, sy'n eich galluogi i ddewis y raddfa sydd orau i chi, yn amodol ar ba mor fanwl a lleol yr hoffech wneud eich ymarfer mapio.

Cliciwch yma i gael templed y gellir ei olygu ar gyfer Mapio Llwybrau Mynediad

Gallai'r opsiwn hwn fod yn addas hefyd os hoffech ddangos eich mapiau ar wal er mwyn gallu cyfeirio atynt yn gyflym ac yn hawdd.

Mae gan yr Arolwg Ordnans 71 o fapiau ar gyfer Cymru ar raddfeydd amrywiol. Bydd y mapiau hyn yn dangos lleoliad pwyntiau allweddol ar hyd y llwybrau, fel pontydd, ac yn dangos yr uchder uwchben lefel y môr, a allai fod yn ddefnyddiol wrth ystyried y perygl o eira a stormydd.

Llifogydd yn afon Gwy yn y Clas ar Wy yn bygwth argaeledd pontydd ffordd pwysig: Baby-Spider yn stock.adobe.com

Mapiau ar-lein – efallai y bydd mapiau ac offer mapio ar-lein yn fwy addas ar gyfer eich anghenion ac mae amrywiaeth o opsiynau ar gael, fel system yr Arolwg Ordnans, sy'n gofyn i chi greu cyfrif ond sy'n cynnig lefelau amrywiol o fynediad am ddim ac a thâl. Er bod yr opsiwn mapio llwybrau wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer gweithgareddau hamdden fel cerdded a beicio, mae'r wefan yn cynnwys mapiau rhyngweithiol clir iawn sy'n dangos pob llwybr a lefelau uchder.

Apiau Mapiau – mae apiau adnabyddus fel Google Maps, Waze ac Apple Maps hefyd yn cynnal gwybodaeth gyfredol am draffig gan roi cipolwg "amser real" i chi ar ffyrdd sydd ar gau a digwyddiadau eraill sy'n rhwystro llif traffig.

Enghraifft o fapio llwybr mynediad: llwybrau i leoliad yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

**Cam 1:** Adolygwch fap o'ch ardal i nodi'r ffyrdd sy'n cael eu defnyddio i gyrraedd eich lleoliad.

Er enghraifft, mae'r 3 map hyn o osmaps.com ac maent yn dangos y 3 phrif lwybr i'r lleoliad dan sylw.



**Cam 2:** Crëwch restr o'r opsiynau ar gyfer y ffyrdd sy'n cael eu defnyddio i gyrraedd eich lleoliad.

**Llwybrau i Ben-y-bont ar Ogwr o Gaerdydd a'r dwyrain**

**Llwybr dewisol 1:**
**M4** tua'r gorllewin i Gyffordd 36
**A4061** tua'r de i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr

**Llwybr dewisol 2:**
**A48** tua'r gorllewin o Gaerdydd i'r Bont-faen
**A473** i'r gyffordd â Coychurch Road
**B4181** i'r gyffordd â Boulevard De Villenave
**A4061** i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr

**Llwybr dewisol 3:**
**A48** tua'r gorllewin o Gaerdydd i'r gyffordd â'r
**B4270** ychydig i'r gorllewin o'r Bont-faen
**B4270** tua'r de i'r gyffordd â'r B4265 ar gyrion Llanilltud Fawr
**B4265** tua'r gogledd-orllewin i'r gyffordd â'r A48

**Llwybrau i Ben-y-bont ar Ogwr o'r gorllewin**

**Llwybr dewisol 1:**
**M4** tua'r dwyrain i Gyffordd 36
**A4061** tua'r de i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr

**Llwybr dewisol 2:**
**M4** tua'r dwyrain i Gyffordd 37
**A4229** tua'r gogledd i'r gyffordd â'r **A48**
**A48** tua'r dwyrain i'r gyffordd â'r **A473**
**A473** tua'r gogledd i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr

**Llwybr dewisol 3:**
**M4** tua'r dwyrain i Gyffordd 37
**A4229** tua'r de i'r gyffordd â'r **A4106**
**A4106** tua'r gogledd-ddwyrain i'r gyffordd â'r **A48**
**A48** i'r gyffordd â'r **A473** (2 opsiwn i ymadael cyn neu ar ôl y ffordd osgoi)
**A473** tua'r dwyrain (allanfa 1) neu'r gorllewin (allanfa 2) i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr

**Cam 3:** Nodwch beryglon yn ymwneud â'r hinsawdd ar hyd pob llwybr. Defnyddiwch y wybodaeth leol yn eich tîm neu, gan y gallai hwn fod yn bersbectif newydd i bawb, beth am ofyn iddynt ystyried y risgiau wrth iddynt yrru ar hyd y llwybrau hyn (gan yrru â gofal a sylw dyladwy, wrth gwrs!) a rhannu eu nodiadau â chi.

**Gallai pwyntiau i'w hystyried gynnwys:**

- Pontydd dros afonydd a allai fod yn dueddol o orlifo.
- Ffyrdd sy'n mynd trwy ardaloedd â choed ar eu hyd lle gallai coed ddisgyn mewn gwyntoedd stormus.
- Ffyrdd nad oes modd eu defnyddio pan fydd yn bwrw eira.
- Ffyrdd uchel ac agored sy'n dod yn beryglus mewn gwyntoedd cryfion a glaw trwm.
- Ffyrdd mewn dyffrynnoedd serth lle gallai cwympiadau creigiau neu dirlithriadau ddigwydd.

Roedd rhaid cau'r B5605 yng Nghefnbychan, Wrecsam pan gwympodd y ffordd i afon Dyfrdwy yn ystod Storm Christoph ym mis Ionawr 2021 Awdur: David Pimborough – Ffynhonnell: Alamy

# Cofrestrau Aseðau Sefyðlog

Mae asedau sefydlog yn cyfeirio at asedau y mae'ch busnes yn eu defnyddio'n rheolaidd i greu ei incwm ac, yn wahanol i asedau eraill fel stoc a'r rhestr eiddo, nid yw'r asedau hyn yn bethau rydych yn bwriadu eu gwerthu.




## Creu cofrestr aseðau sefyðlog – a pham y mae'n bwysig

Bydd creu cofrestr asedau sefydlog yn galluogi eich busnes i adalw gwybodaeth allweddol yn gyflym am ased, gan gynnwys:

- Disgrifiad.
- Y dyddiad prynu.
- Ble mae'r ased wedi'i leoli.
- Y pris prynu.
- Dibrisiant cronedig.
- Gwerth arbed amcangyfrifedig.

Mae creu cofrestr asedau yn eich galluogi i fanteisio ar gronfa ddata gynhwysfawr o asedau eich busnes ac mae nifer o fanteision:

- Gall roi mwy o amlygrwydd i'ch asedau, gan eu galluogi i gael eu cyfrif a'u rheoli'n well, gan atal lladrad neu driniaeth wael.
- Bydd yn gwella'r modd y caiff gwybodaeth gywir am dreth ac yswiriant ei chynnal.
- Gall gefnogi gwaith cynnal a chadw cynlluniedig gwell sy'n helpu i ymestyn oed defnyddiol ased ac yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig ag amnewid ac atgyweirio asedau.
- Mae'n eich galluogi i ystyried a yw'r yswiriant sydd gennych yn briodol ac yn ddigonol i adfer ar ôl digwyddiadau yn gysylltiedig â'r hinsawdd.

Bydd eich cofrestr asedau yn mynnu data penodol ar asedau, fel:

- Disgrifiad – beth yw'r ased?  Rhowch ddisgrifiad byr o'r eitem.
- Rhifau cyfeirnod – rhowch rif adnabod ased unigryw i bob ased a chofnodi'r rhifau cyfresol neu godau cyfeirio eraill.
- Lleoliad yr ased – ble mae'r ased wedi'i leoli'n ffisegol neu, yn achos cerbydau, ble mae ei safle "cartref"?
- Manylion caffael – beth oedd y dyddiad prynu a'r pris a dalwyd?
- Dibrisiant - beth yw oes ddisgwyliedig amcangyfrifedig a gwerth dibrisiant yr ased? Pan fydd wedi'i ddibrisio'n llawn, beth yw'r amcangyfrif o werth ailwerthu/arbed yr ased?
- Unigolyn cyfrifol – pwy yn eich busnes sy'n "berchen" ar yr ased neu i bwy y mae wedi'i neilltuo neu pwy sy'n ei gynnal a chadw?
- Manylion yswiriant a chydymffurfio – pa bolisi sy'n berthnasol iddo ac a oes unrhyw warantau ar waith?
- Hanes cynnal a chadw – gan gynnwys atgyweiriadau ac amser segur.

Mae'r hyn sy'n cael ei roi ar eich cofrestr asedau fel arfer yn cael ei lywodraethu gan bolisi cyfalafu eich busnes, felly wrth i chi lunio a diweddaru eich cofrestr asedau, byddwch am benderfynu beth yw eich dull ar gyfer hyn.

Mae polisïau cyfalafu yn amrywio o un cwmni i'r llall; mae rhai busnesau'n dewis ei bennu cyn ised â £250 ac mae gan eraill fan cychwyn o £5,000. Mae eich polisi cyfalafu'n rheoleiddio isafswm gwerth yr asedau y byddwch am eu holrhain.

Felly, er enghraifft, os bydd eich busnes yn penderfynu cofnodi pob ased sydd â gwerth prynu o £2,000 neu'n uwch, yna byddai'ch cofrestr asedau'n cynnwys peiriant y gwnaethoch ei brynu am £25,000, ond nid cyfrifiadur gwerth £1,200.

## Ar ba ffurf y ðylai fy nghofrestr aseðau foð?

Mae llawer o becynnau/platfformau meddalwedd cyfrifyddu, fel Sage a Xero, yn cynnig swyddogaeth cofrestr asedau, felly mae'n werth gwirio p'un a allwch fanteisio ar un o'r rhain cyn creu fformat newydd.

**Taenlenni**

Ar lefel syml, gallai'ch cofrestr asedau fod yn daenlen ac mae hwn yn fan cychwyn da ar gyfer llawer o fusnesau llai. Mae fel arfer yn ddigonol os oes gennych lai na 100 o asedau sydd, gyda'i gilydd, yn werth llai na £100,000.

Gallwch aseinio rhes i bob ased ac ychwanegu'r wybodaeth yn y colofnau.

Efallai yr hoffech i ychydig dabiau gwahanol yn y daenlen gael eu teilwra'n well i wahanol fathau o asedau – er enghraifft, efallai y bydd angen math penodol o osodiad ar gyfer offer TG o gymharu â pheiriannau, cerbydau neu ddodrefn swyddfa.

Yna, gellir rhannu taenlen cofrestr asedau sefydlog â'r defnyddwyr cywir a all fewnbynnu a golygu data wrth i bob ased gael ei brynu, ei werthu neu pan fydd angen gwybodaeth newydd amdano.

**Cofrestrau asedau cwmwl**

Ymhen amser, efallai yr hoffai busnesau fuddsoddi mewn gwasanaeth cofrestru asedau ar y cwmwl. Er bod cost i hyn – tâl misol neu flynyddol, fel arfer – mae iddo'r manteision o fod yn haws ei ddiweddaru a gellir mynd ato o bell pe na fyddai modd cyrraedd safle'r busnes neu fynd at y systemau TG oherwydd digwyddiad yn ymwneud â'r hinsawdd.

## Creu eich cofrestr aseðau

Bydd dilyn y camau a awgrymir isod yn eich helpu i greu cofrestr asedau gadarn a defnyddiol ac mae templed golygadwy ar gael, y gallwch ei deilwra i anghenion eich busnes.

Cliciwch yma i gael Templed o Gofrestr Asedau y gellir ei olygu

### Creu cofrestr aseðau sefyðlog

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Edrychwch ar eich mantolen a rhestrwch yr holl asedau sydd wedi'u cofnodi yno, gan sicrhau bod yr holl asedau sydd wedi'u hadlewyrchu yn llyfrau cwmni'r busnes wedi'u cofnodi | Nodwch asedau trwy gynnal archwiliad ffisegol – cerdded o gwmpas lleoliad(au) y cwmni i groeswirio'r asedau yn erbyn y rhai ar y fantolen | Penderfynwch ar y gwerth cyfalaf isaf yr hoffech ei gofnodi – e.e. gallai busnes llai ddewis £500 a chwmnïau mwy dewis £5,000 | Penderfynwch ba wybodaeth allweddol yr hoffech ei chofnodi a'r fformat – e.e. taenlen, ffeil bapur neu system ar-lein | Ychwanegwch unrhyw asedau nad ydynt wedi'u rhestru ar y fantolen, efallai oherwydd eu bod wedi dibrisio'n llawn neu eu bod yn newydd | Crëwch gofnod unigol ar gyfer pob ased sefydlog gan ddefnyddio fformat cyson | Penderfynwch i ba gategori "hanfodol i barhad y busnes" y mae'r ased yn perthyn | Rhowch ddyddiadau rheolaidd yn y dyddiadur i adolygu a diweddaru'ch cofrestr |

## Blaenoriaethu eich aseðau

Penderfynwch sut i flaenoriaethu eich asedau ar sail pa mor hanfodol ydynt i'ch busnes. Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu ar bethau pwysig fel mesurau amddiffyn, beth i geisio ei symud neu ei dynnu os bydd digwyddiad hinsawdd ar fin digwydd, neu yn digwydd, ac yn llywio penderfyniadau am eich polisïau yswiriant.

Wrth i chi greu eich cofrestr asedau, ceisiwch ddyrannu pob eitem i un o'r pedwar categori asedau hanfodol sydd i'w gweld yn y ffeithlun.

### Blaenoriaethu eich aseðau yn ôl pa mor hanfoðol yðynt i barhað y busnes

# Yn Doð Nesaf:

**Mae Modiwl 4 yr Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd yn edrych ar** asesu'r risgiau hinsawdd mewn gweithgynhyrchu bwyd a diod a sut gall cynllunio senarios – trwy ofyn cwestiynau "beth petai" – helpu eich busnes i addasu a meithrin mwy o gydnerthedd yn ymwneud â'r hinsawdd.

# Cyfeiriaðau

[1]National Institute of Building Sciences (USA): Natural Hazard Mitigation Saves: 2019 Report
[2] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: Hydrology Data Explorer
[3]Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad blynyddol rheoli perygl llifogydd 2023 i 2024
[4]Cyfoeth Naturiol Cymru: Cynlluniau rheoli llifogydd 2023 i 2029

**Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ac yn gyfredol ar adeg ysgrifennu. Ni allwn gymryd cyfrifoldeb am ddolenni i wefannau allanol a allai fod wedi torri dros amser.**

**Gorffenaf 2025**